CCB CYMDEITHAS ERYRI
Cynhaliwyd ar ddydd Mercher 12 Tachwedd 2025, Plas y Brenin, Capel Curig

1. **Ymddiheuriadau**
   Elizabeth Nottage, Chris Ball, Ian Hampton, Chloe Bailey, John Roberts, Peter Moore, Katherine Moore

2. **Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024**

Cymeradwywyd cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan Netti Collister, eiliwyd gan Julian Pitt.

Adroddiad y Cadeirydd – Sue Beaumont

Diolchwyd i David Firth am gadeirio'r cyfarfod ar y funud olaf.

Cyd-destun ein gwaith:

- Rhoddwyd pwyslais ar yr heriau sy'n ein wynebu yn wyneb yr argyfwng byd natur ac effaith newid hinsawdd yn Eryri a phwysigrwydd ein gwaith yn y cyd-destun hwn.
- Rydym yn falch bod Cymdeithas Eryri wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau diweddar gydag APCE ar sut i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac edrychwn ymlaen at sut y bydd y rhain yn dod yn rhan o'n polisïau yng nghynllun rheolaeth nesaf Parc Cenedlaethol Eryri.
- Amlygwyd ein cyfraniad i'r ymgynghoriadau parthed y cynllun Ffermio Bro i gefnogi ffermwyr i ddatblygu ymarferion sy'n gyfeillgar i fyd natur.
- Rhoddwyd pwyslais ar sut mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i'n gallu i wneud gwahaniaeth drwy gyfrwng ein gwirfoddolwyr, cefnogwyr ac aelodau.

Newidiadau o ran Ymddiriedolwyr:

- Ffarweliwyd a rhoddwyd teyrnged i Julian Pitt sy'n camu'n ôl fel ymddiriedolwr. Rydym yn falch iawn y bydd yn parhau i fod yn aelod o'r grŵp Adfocatiaeth. Diolch, Julian.

Cydnabyddiaeth a diolch:

- Diolchodd Sue i Rob Collister fel golygydd y cylchgrawn hwn, yn ogystal ag i Debbie Pritchard sy'n cynhyrchu pob cylchgrawn. Rhoddwyd diolch hefyd i Rory Francis, Mary-Kate Jones a Debbie Pritchard am sicrhau parhad Cymdeithas Eryri ar adegau anodd. Diolchodd Sue hefyd i'w chyd-ymddiriedolwyr am eu holl waith drwy gydol y flwyddyn.

3. **Adroddiad y Cyfarwyddwr – Rory Francis**

Cydnabyddiaeth:

- O ganlyniad i'r Gronfa Ffyniant a Rennir a grantiau eraill, cawsom flwyddyn eithriadol o lwyddiannus y llynedd.

Rhoddwyd diolch arbennig i:

- Jane Barbrook, am ei gwaith fel arweinydd gwirfoddolwyr a rhoddwyd cydnabyddiaeth i waith dygn yr holl wirfoddolwyr.
- Etta Trumper (APCE) am ei gwaith i gynnal y cynllun Caru Eryri drwy gydol yr haf.
- Cydweithiodd Mary-Kate Jones a Debbie Pritchard i gynnal y Gymdeithas ar adegau anodd.
- I Sue Beaumont (cadeirydd) am gadw rheolaeth ar y sefyllfa ariannol pan fu newid yn y Swyddog Ariannol; nodwyd cyfraniad pob ymddiriedolwr a diolchwyd iddyn nhw.

- I Mark Dakeyne am ei waith o ddod o hyd i safleoedd parcio a theithio ar fws yn ogystal â'i holl waith gyda'r pwyllgor adfocatiaeth – am ddrafftio llythyrau i Awdurdod y Parc ar faterion yn ymwneud â chynllunio.
- I Julian Pitt sy'n ymddeol fel ymddiriedolwr a gysylltodd â Jeremy Yates i beintio'r lluniau sydd ar hyn o bryd ar gael i'w gwerthu mewn ocsiwn.

Staffio – y diweddaraf:

- Bu'n flwyddyn anodd i'r Gymdeithas, gyda llawer o aelodau o staff yn symud ymlaen
- Mae Rory yn falch iawn o groesawu Isobel Marshall-Andrews sydd ar fin cychwyn gyda'r Gymdeithas ddydd Llun 17 Tachwedd fel Rheolwr Cadwraeth.

Cofrodd:

- Adroddodd Rory ein bod wedi derbyn cofrodd hynod o hael o £387,000 eleni o stad Miss Helen Larman o Nant Gwynant, a oedd yn aelod o'r Gymdeithas am flynyddoedd lawer. Fel y dywedodd ei chyfaill Susan Steel: *"Cwympodd Miss Larman mewn cariad ag Eryri fel plentyn, yn dilyn ei chyfnod byr fel efaciwî yma'n ystod y rhyfel. Roedd ei hangerdd am y rhanbarth yn heintus; doedd dim yn ei gwneud yn hapusach na'i rannu gyda'i chyfeillion a'i theulu, a gwnaeth hyn dros sawl cenhedlaeth. Roedd calon Annie yn perthyn yma; roedd yn teimlo'n gryf bod y mynyddoedd, yr afonydd a'r llynnoedd yno i bawb eu mwynhau."*
- Adroddodd Rory y byddwn yn defnyddio'r cofrodd yma yn y ffordd orau un drwy ei defnyddio yn gyfartal â nawdd grant a buddsoddi mewn recriwtio aelodau newydd.

Trafnidiaeth:

- Mae'r gwasanaeth bws rhwng Bangor a Betws-y-coed wedi ei wella'n arw – bellach mae gwasanaeth bob awr yn ystod y dydd drwy gydol yr haf.
- Nodwyd Parc Bryn Cegin, ychydig y tu allan i Fangor, fel safle potensial ar gyfer parcio a theithio mewn bws a deallwn y bydd yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas yma yr haf nesaf.

Cynlluniau gan NESO, National Energy Systems Operator a'r Grid Cenedlaethol

- Yn y cynlluniau gwelir llinell bŵer sydd â'r potensial i redeg drwy dde Eryri ym Meirionnydd.
- Sefydlwyd e-weithred gan Gymdeithas Eryri, i annog ein haelodau i ysgrifennu at eu AS a gofyn iddyn nhw arwyddo Datganiad Barn yn y Senedd, a luniwyd ar y cyd gennym ni, yn gofyn am leoli'r cyswllt hwn oddi ar y lan, yn union fel llawer o gysylltau arfaethedig eraill, yn amodol â'r effeithiau ar fywyd y môr.
- Cawsom sicrhad, pe bai'r llinell yn rhedeg drwy Eryri, y byddai'n cael ei chladdu o dan y ddaear, ac y byddai hyn mewn difrif mor ddrud fel y byddai'r Grid Cenedlaethol, bron yn bendant, yn osgoi'r Parc ac yn mynd o amgylch yr ochr.

Rhaeadr y Cwm

- Trafodwyd cynlluniau ar gyfer cynllun ynni dŵr bach yn Rhaeadr y Cwm yn ein CCB y llynedd.
- Ar adegau, byddai'r cynllun hwn yn dargyfeirio bron i 70% o'r dŵr o'r rhaeadr hardd yma, un o'r mwyaf trawiadol yn Eryri ac un sydd wedi ei gwarchod fel safle hanfodol bwysig ar gyfer bywyd gwyllt, SoDdGA.
- Nid yw canlyniad y cais hwn wedi ei benderfynu hyd yma. T
- Mae gennym gonsortiwm gwych o Gymdeithas Eryri, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Achub ein Hafonydd, Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru, Plantlife a Buglife yn cydweithio i warchod y rhaeadr yma. Gyda'n gilydd, llwyddwyd i berswadio dros 1000 o bobl i wrthwynebu'r ceisiadau cynlluniau'n unigol.

Peintiadau ar gyfer ocsiwn:

- Amlygodd Rory bod gennym ddau beintiad hyfryd o Raeadr y Cwm gan Jeremy Yates, Is-gadeirydd y Royal Cambrian Academy of Art, i'w cynnnig ar ocsiwn.
- Cynllun Ffermio Bro:
- Y llynedd, rhoddwyd anogaeth i aelodau gymryd rhan yn ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd - i gefnogi ffermio sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt.
- Canlyniad yr ymgynghoriad oedd Ffermio Bro a gofynnwyd i Rory fod yn aelod o banel y cynlluniau dros Eryri.
- Mae hi wedi bod yn wych gweld cannoedd o filoedd o bunnau'n cael eu gwario ar welliannau amaethyddol mentrus.

4. **Adroddiad y Prosiect Cadwraeth – Mary-Kate Jones**

Rhoddodd Mary-Kate grynodeb o gyflawniadau ein tîm gwirfoddolwyr ymarferol. Rhoddwyd diolch i aelodau o staff, partneriaid, noddwyr a gwirfoddolwyr oherwydd ni fyddai yn bosibl cwblhau'r gwaith hebddyn nhw. Rhoddodd Mary-Kate groeso i Isobel a soniodd yn arbennig am Dan Goodwin a Chelsea Boden sydd yn sefyll fel ymddiriedolwyr ac a fydd yn dod â gwybodaeth werthfawr am ein dulliau o weithio i'r tîm o ymddiriedolwyr.

Cyfanswm ffigurau: cwblhawyd dros 5000 awr o waith:

Caru Eryri

- Casglwyd dros 1,200kg o sbwriel
- Hyd llwybrau o 35km

Partneriaeth tirlun y Carneddau: prosiect jac-y-neidiwr

- Dros 330 o waith gwirfoddol
- Mwy o waith gydag ysgolion
- Cwblhaodd 17 o bobl hyfforddiant achrededig mewn rheoli rhywogaethau ymledol

Partneriaeth tirlun y Carneddau: Prosiect clirio llystyfiant

- Dros 340 awr gan wirfoddolwyr
- Mwy o waith gydag ysgolion
- Mwynhaodd gwirfoddolwyr werth ychwanegol wrth ddysgu am archeoleg yn ogystal ag ymgymryd â gwaith cadwraeth ymarferol

Penwythnos Gwneud Gwahaniaeth (MAD)

- Dros 400 o oriau gwirfoddol
- 3kg o sbwriel anodd-ei-gyrraedd wedi ei glirio o lannau Llyn Padarn
- Cynhaliwyd dros 2.5km o lwybr Watkin Yr Wyddfa
- Cliriwyd Rhododendron o 15 erw o goedlan
- Cliriwyd 23kg o sbwriel (yn cynnwys 27 o hetiau) o Gwm Hetiau

6. Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol - Sue Beaumont

- Mae adroddiad blynyddol a datganiad ariannol yr ymddiriedolwyr wedi bod ar gael ar ein gwefan.

- Rhoddwyd diolch arbennig i Stephen Faun a roddodd y gorau i fod yn Swyddog Ariannol ar ddiwedd mis Hydref.
- Soniwyd a rhoddwyd diolch am y cofrodd hael y soniodd Rory amdani'n gynharach.
- Dros y 2-3 mlynedd diwethaf, mae incwm o godi arian wedi bod yn eithaf sefydlog – incwm a ddaeth o gyfraniadau a'r Big Give, tanysgrifiadau aelodaeth ac incwm masnachu yn ogystal â buddsoddiadau.
- Prif ffynonellau eraill o incwm yw nawdd grant ar gyfer gweithgareddau elusennol.
- Cyfrannodd y Gronfa Cyfoeth a Rennir yn arwyddocaol y llynedd, ynghyd â nawdd arall megis grantiau gan y WCVA, incwm o gytundebau fel rhan o'n gwaith gyda Phartneriaeth Tirlun y Carneddau a grant gan Garfield Weston.
- Roedd perfformiad drwyddo draw yn dda iawn, ac mae'r cofrodd wedi sicrhau sicrwydd ariannol am beth amser i ddod.

7. Mabwysiadu'r Adroddiad a'r Cyfrifon

- ***Cynnig i fabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025***
  Cynigiwyd y symudiad i fabwysiadu Adroddiad Blynyddol 2024/2025 a chrynodeb o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025 gan Rob Collister ac eiliwyd gan David Metcalf a'i basio *nem con*.

8. Ethol Swyddogion ac Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith:

- Cynigiwyd ethol Roger Thomas fel Llywydd gan Margaret Thomas, eiliwyd gan Netti Collister a'i basio *nem con*
- Cynigiwyd ethol Syr Simon Jenkins fel Is-lywydd gan Julian Pitt, eiliwyd gan Netti Collister a'i basio *nem con*
- Cynigiwyd ethol David Firth fel Is-lywydd gan Rob Nicholson, eiliwyd gan Mark Dakeyne a'i basio *nem con*
- Cynigiwyd ethol ei Fawrhydi Huw Morgan Daniel fel Is-lywydd gan Mathew Teasdale, eiliwyd gan Jane Barbrook a'i basio *nem con*
- Cynigiwyd ethol Mathew Teasdale fel Ymddiredolwr gan Margaret Thomas, eiliwyd gan Richard Heavers a'i basio *nem con*
- Cynigiwyd ethol Daniel Goodwin fel Ymddiriedolwr gan Bill Evans, eiliwyd gan Katie Haines a'i basio *nem con*
- Cynigiwyd ethol Chelsea Boden fel Ymddiriedolwr gan Bill Evans, eiliwyd gan Netti Collister a'i basio *nem con*

Ymddiriedolwyr yn ymddeol yn y CBC hwn: Julian Pitt

9. Cwestiynau i'r Cyfarwyddwr a'r Swyddogion

- **Gwerthiant potensial Tŷ Hyll:**
  - Mynegwyd pryder am werthiant potensial Tŷ Hyll a chais am gynnydd yn y gwaith o gynnal a chadw'r ardd a'r goedlan.

    Ymateb:

- Mae Tŷ Hyll wedi bod yn costio mwy o arian i ni nag sydd wedi bod yn dod i mewn o'i weithgareddau.
- Nid oes penderfyniad wedi ei wneud parthed gwerthu Tŷ Hyll
- Fodd bynnag, rhaid i ni gydnabod bod costau sylweddol yn gysylltiedig â hyn – yn enwedig y problemau parhaus a difrifol gyda'r system garthffosiaeth.
- Nid oes ateb hawdd ac mae'n ddrud.
- Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwario arian i ateb amcanion ein cynllun gweithredu.

- **Prinhad yn y nifer o bartneriaid**
  - Mynegwyd pryder nad ydym yn cydweithio gyda digon o gyrff sy'n bartneriaid.

    Ymateb:

    - Pwysleisiwyd cyfyngiad sydd gennym yn ymwneud â nawdd grant ee roedd yn rhaid gwario nawdd SPF yng Ngwynedd a Chonwy
    - Rhai prosiectau arfaethedig sydd gennym mewn partneriaeth â chyrff eraill ee RSPB a Choed Cadw

- **Colli 7 aelod o staff**

  - Codwyd pryder ynghylch y ffaith bod 70% o'r staff wedi gadael, a gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â sut y gellir atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol.

    Ymateb:

    - Cydnabod ein bod yn ymwybodol o'r mater ac yn gweithio i sicrhau ein bod yn gyflogwr da sy'n cynnig buddion i staff, polisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ayyb.
    - Rydym yn byw mewn argyfwng costau byw gyda marchnad gystadleuol – mae angen i ni dalu cyflogau da, sy'n rhywbeth yr ydym yn ymdrechu i'w wneud.
    - Cynhaliwyd cyfweliadau ymadael i ddarganfod y rheswm pam fod staff yn gadael.

- **Darpariaeth digwyddiadau i aelodau**
  - A ydym wedi rhoi'r gorau i ddarparu teithiau a sgyrsiau i'r aelodaeth gan na gynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau yn y flwyddyn a fu?

    Ymateb:

    - Cynlluniau ar gyfer rôl newydd ar y gweill a all gynnwys trefnu digwyddiadau.
    - Os ydym am recriwtio aelodau, rydym yn ymwybodol bod angen cynnig buddion i aelodau.

10. Dyddiad y CCB nesaf

I'w gadarnhau